# PRIF SGRIWTINI CORFFORAETHOL

# GALW PENDERFYNIAD I MEWN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2010

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams - Cadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr Keith Evans, T Lloyd Hughes, W T Hughes, Eric Jones, Raymond Jones, R Dylan Jones, G O Parry MBE, Eric Roberts, Peter S Rogers, John Penri Williams, Selwyn Williams. |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd a Rheoli Gwastraff),<br>Rheolydd Sgriwtini,<br>Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini (CT)<br>Swyddog Pwyllgor (JMA). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Derlwyn R Hughes |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd T H Jones (Aelod Portffolio - Cyllid)<br>Y Cynghorydd Hefin Thomas (Aelod Portffolio Priffyrdd, Trafnidiaeth ac Arforol)<br>Y Cynghorwyr W T Hughes, R L Owen, Brian Owen<br>(fel 3 o'r 5 Aelod a alwodd y penderfyniad i mewn)<br>Y Cynghorydd B Durkin, Rhian Medi (Aelodau Lleol) |

•

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni wnaed yr un datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod na Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem a fyddai'n cael ei thrafod.

**2 MATER A GYFEIRIWYD I'R PWYLLGOR AM SYLW MEWN PERTHYNAS Â GALW PENDERFYNIAD I MEWN**

Derbyniodd y Rheolwr-gyfarwyddwr Rybudd ar 9 Tachwedd 2010, wedi'i arwyddo gan 5 Aelod o'r Cyngor Sir, i alw penderfyniad i mewn a wnaed gan yr Aelodau Portffolio ar gyfer Cyllid a Phriffyrdd, Trafnidiaeth ac Arforol a gyhoeddwyd ar 2 Tachwedd 2010.

Y pum Aelod a oedd wedi galw'r penderfyniad i mewn oedd:- Y Cynghorwyr W T Hughes, O Glyn Jones, Raymond Jones, R L Owen, a Brian Owen (yr Aelod a oedd yn arwain).

Roedd y Penderfyniad a wnaed gan yr Aelod Portffolio fel a ganlyn:-

***TALIADAU PARCIO CEIR***

*(i) Cefnogi'r cynigion i gyflwyno 8 o Feysydd Parcio Talu ac Arddangos newydd ledled yr Ynys;*
*(ii) Cytuno i'r Polisi diwygiedig ynghylch Gwaith Cynnal dros y Gaeaf ar gyfer meysydd parcio.*

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Aelod a oedd yn arwain y broses galw i mewn, sef y Cynghorydd Brian Owen, i ymhelaethu ar y rhesymau dros wneud hynny.

Dywedodd y Cynghorydd Owen na fu unrhyw ymgynghori gyda'r Aelodau Lleol na'r Cynghorau Cymuned Lleol. Soniodd am yr effaith andwyol y gallai'r penderfyniad ei gael ar fusnesau bychain. Cyfeiriodd at bensiynwyr a oedd yn defnyddio'r Feddygfa Leol, Llyfrgelloedd, Neuaddau Pentrefi ac ati. Roedd yn credu bod y penderfyniad yn tynnu'n groes i'r Polisi mewn perthynas â Thwf Economaidd

Cynaliadwy a bod y penderfyniad yn dwyn anfri ar y Cyngor. Roedd yn derbyn bod cyfyngiadau ariannol ar y Cyngor ond roedd yn credu y dylid rhoi sylw i faterion mewnol yn y lle cyntaf e.e. penodi ymgynghorwyr ar ffioedd o dros £100,000 pan y byddai modd cyflogi Cyfreithiwr ar sail amser llawn am hanner y gost. Dygodd sylw at y ffaith bod nifer o feysydd parcio yn dal i fod yn feysydd parcio am ddim a gofynnodd a oedd y penderfyniad wedi cael ei wneud ar sail wleidyddol gyda rhai ardaloedd yn cael eu targedu'n wleidyddol.

Darllenodd llythyr gan Gyngor Eglwysi Llangefni a'r Cylch yn mynegi pryderon ynghylch y ffaith y byddai'r Aelodau o'r Eglwysi sy'n mynd i Wasanaethau Capel ac Eglwys ar y Sul yn gorfod talu am barcio. Roedd y Cyngor Eglwysi yn teimlo y dylai parcio fod am ddim ar y Sul yn arbennig oherwydd bod y rhan fwyaf o aelodau'r gynulleidfa o oed pensiwn. Gofynnodd i'r Cyngor ailystyried ei benderfyniad ac ychwanegodd y byddai aelodau'r Eglwysi / Capeli yn fodlon arddangos bathodynnau ar eu cerbydau a fyddai'n nodi bod perchenogion y cerbydau hynny yn mynychu gwasanaeth crefyddol.

Cyflwynodd y Cynghorydd Owen ddeiseb a gafodd gan drigolion ardal Rhosneigr ynghyd â deiseb gan wrthwynebwyr yn ardal Rhydwyn. Gorffennodd trwy ddweud bod y mater wedi achosi pryder mawr yn lleol.

Roedd y Cynghorydd W T Hughes yn cytuno gyda sylwadau'r Cynghorydd Owen ond ychwanegodd ei fod yn credu bod cyfamod mewn bodolaeth ers 1963/65 a fyddai'n rhwystro'r Cyngor rhag codi am barcio yng Nghemaes. Soniodd hefyd am yr effaith y byddai codi am barcio yn ei gael ar fusnesau a thrigolion lleol.

Fel yr aelod lleol ar gyfer Llangefni, roedd y Cynghorydd Rhian Medi yn rhannu'r un farn a fynegwyd eisoes ac ychwanegodd y dylid rhoi sylw i godi tâl ar Aelodau a Swyddogion am barcio yn swyddfeydd y Cyngor. Roedd y Cynghorydd Durkin fel aelod lleol ar gyfer Benllech yn cefnogi'r sylwadau a wnaed gan y siaradwyr blaenorol ac ychwanegodd ei fod yn credu y gallai'r penderfyniad fod yn ddiffygiol oherwydd bod y Cyngor Cymuned yn talu rhent am y maes parcio yn y sgwâr ym Menllech er mwyn sicrhau nad oes tâl yn cael ei godi am barcio.

Soniodd y Cynghorydd Jones hefyd am effaith bosib y penderfyniad ar ganol tref Caergybi sydd eisoes yn dirywio. Siaradodd am y parcio am ddim sydd ar gael i gwsmeriaid yn y Parc Busnes y tu allan i'r dref tra bod y cyfleusterau parcio yng Nghaergybi yn ofnadwy o wael gyda llinellau melyn a bolardiau yn dominyddu canol y dref.

Dywedodd y Cynghorydd John Penri Williams ei fod yn nodi'r sylwadau a wnaed gan yr Aelodau. Nid oedd yn cytuno bod cymhelliant gwleidyddol y tu ôl i'r penderfyniad.

Cynigiodd:-

Y dylai'r awr gyntaf o barcio fod am ddim o ddydd Llun i ddydd Sadwrn;

Dylid codi ffi is ar gyfer yr ail awr o barcio;

Y dylai'r tâl a godir ar ôl dwy awr fod yn debyg i'r tâl a godir gan awdurdodau eraill;

Parcio am ddim ar ddydd Sul;

Dylid codi £100 ar Aelodau a Swyddogion am barcio;

Ymchwilio i sylwadau aelodau lleol ynghylch cyfamodau/prydlesau a gwneud penderfyniad yn seiliedig ar ganlyniad yr ymchwiliadau hynny;

Bod y mater yn cael ei gyfeirio'n ôl i'r Aelodau Portffolio neu'r Pwyllgor Gwaith i'w ailystyried.

Ni chafwyd eilydd i'r cynnig.

Esboniodd y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd) y cefndir i'r penderfyniad. Ychwanegodd mai ei gynnig gwreiddiol oedd cyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Gwaith ond gwnaed penderfyniad y byddai'r Aelodau Portffolio yn penderfynu ar y mater. Roedd yn dymuno osgoi costau ymgynghori diangen os nad oedd cefnogaeth wleidyddol i'r mater. Dywedodd bod yr incwm o'r meysydd parcio yn £350k y flwyddyn ar hyn o bryd, a bod £50k o'r arian hwnnw'n cael ei ddyrannu ar gyfer cynnal meysydd parcio a'r £300k sydd yn weddill yn dychwelyd i'r canol. Ni fu cynnydd yn y taliadau parcio yn y 3 blynedd diwethaf. Roedd yn ceisio cael cysondeb ar draws yr Ynys. Ni fyddai meysydd parcio gyda llai na 20 o lecynnau parcio yn cael eu heffeithio. Atgoffodd yr Aelodau bod modd prynu trwydded barcio flynyddol am £100 (£2 yr wythnos) sy'n caniatau parcio am ddim yn yr holl feysydd parcio ledled yr Ynys (gan gynnwys gostyngiad ar gyfer pensiynwyr).

Mewn perthynas â Sgwâr Benllech, mae'r Adain Eiddo yn chwilio am ddogfen gytundeb ond heb ei ddarganfod hyd yma. Prydlesir y safle am £100 y flwyddyn a delir gan y Cyngor Cymuned. Y Cyngor sy'n talu'r costau cynnal gan gynnwys ffensio. Mewn perthynas â Maes Parcio Swift Square yng Nghaergybi, cytunwyd ar barcio am ddim fel rhan o gytundeb gyda Morrisons. Fodd bynnag, nid oedd y defnydd a wnaed o'r maes parcio wedi cynyddu o ganlyniad. Ychwanegodd y byddai'n ymchwilio i'r mater cyfamod mewn perthynas â'r maes parcio yng Nghemaes. Fodd bynnag, dywedodd bod raid i'r Cyngor godi arian a bod yn gyson ledled yr Ynys o ran codi am barcio.

Siaradodd y Cynghorydd Selwyn Williams am yr effaith negyddol ar yr economi adwerthu leol ac ychwanegodd y byddai codi am barcio yn golygu y byddai pobl yn siopa mewn canolfannau y tu allan i'r trefi lle maent yn gallu parcio am ddim. Roedd y Cynghorydd Eric Roberts yn cytuno. Roedd hefyd yn cwestiynu cyfreithlondeb codi am barcio yn Rhoscolyn oherwydd cwestiwn ynghylch perchenogaeth y tir. Nid oedd yn credu y byddai cost y gwasanaeth yn gost effeithiol oherwydd ychydig o ddefnydd a wneir o'r maes parcio ac eithrio ym mis Awst. Cadarnhaodd y swyddog ei fod yn credu bod y tir ym mherchenogaeth y Cyngor.

Roedd y Cynghorwyr Eric Jones a Peter Rogers hefyd yn credu y byddai'r penderfyniad yn cael effaith andwyol ar fusnesau bychan ac y dylid bod wedi ymgynghori gyda'r aelodau lleol a'r cynghorau tref a chymuned. Atgofodd y Cynghorydd Rogers yr aelodau bod rhai Cynghorau yn caniatau parcio am ddim yn y cyfnod cyn y Nadolig er mwyn annog cwsmeriaid i ymweld â siopau yng nghanol trefi.

Mynegodd y Cynghorydd G O Parry MBE ei wrthwynebiad hefyd i'r penderfyniad. Dywedodd bod deng mlynedd wedi mynd heibio ers sefydlu'r trefniadau parcio cyfredol ac roedd yn credu y byddai'n amserol adolygu'r holl feysydd parcio, gan gynnwys ffioedd, yn wyneb y newidiadau yn yr economi.

Cynigiodd y dylid cyfeirio'r penderfyniad i'r Cyngor Sir am y rhesymau isod:-

- Mae'r penderfyniad yn tynnu'n groes i egwyddorion y Cyfansoddiad;
- Cymesuredd - cost darparu'r gwasanaeth o gymharu â'r incwm a geid;
- Ymgynghori annigonol;
- Er budd bod yn agored ac yn dryloyw;
- Eglurder amcanion a'r canlyniadau a ddymunir - pam mae'r 8 maes parcio penodol hyn wedi'u targedu.

Yn ogystal, cynigiodd y Cynghorydd Parry na ddylai'r Pwyllgor Gwaith na'r Aelodau Portffolio awdurdodi unrhyw gynnig i godi ffioedd heb i'r cynlluniau hynny gael eu cynnwys yn y rhaglen blaenoriaethau fforddiadwy. Yn ogystal, bod y Panel sy'n gwneud y gwaith mewn perthynas â blaenoriaethau fforddiadwy yn cael ei ddynodi'n Banel Ffurfiol yn hytrach na Phanel Anffurfiol.

Atgoffwyd yr Aelodau gan y Rheolydd Sgriwtini o'r opsiynau sydd ar gael iddynt yn y Cyfansoddiad, Paragraff 4.5.16.4. Dywed os yw'r Pwyllgor yn dal i fod yn bryderus am y penderfyniad gallant ei gyfeirio'n ôl i'r unigolyn neu'r corff a wnaeth y penderfyniad neu ei gyfeirio'n ôl i'r Cyngor llawn. Fodd bynnag, os byddant yn gwneud hynny a'r Cyngor yn eu cefnogi nid oes gan y Cyngor rym i wneud penderfyniadau mewn perthynas â penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith oni bai bod y penderfyniad hwnnw'n tynnu'n groes i'r Fframwaith Polisi a Chyllidebol. Roedd y Cynghorydd Owen yn cadarnhau ei fod yn credu bod y penderfyniad yn tynnu'n groes i'r Polisi Twf Economaidd Cynaliadwy.

Roedd y Cynghorydd T Lloyd Hughes yn credu bod cysondeb yn bwysig - cwestiynodd gost y Maes Parcio newydd yn Swyddfeydd y Cyngor. Nid oedd yn credu mai materion parcio oedd achos y cwymp yn nifer y siopau yng nghanol Tref Caergybi. Cyfeiriodd at Stanley Crescent a Waterside a materion parcio ar gyfer trigolion. Roedd yn derbyn nad oedd y diffyg ymgynghori yn dderbyniol ond pwysleisiodd bod angen edrych ar y mater hwn ar sail Ynys gyfan.

Siaradodd y Cynghorydd R Dylan Jones am dristwch bod unigolyn mewn oed a oedd wedi ymladd yn y Rhyfel Byd yn gorfod talu am barcio ar Sul y Cofio yn Amlwch. Roedd yn credu y dylid cael parcio am ddim ar achlysuron o'r fath. Roedd yn dymuno gweld arian yn aros ar yr ynys ac roedd yn credu y byddai cyflwyno tâl am barcio ym Menllech yn golygu y byddai pobl yn gwario arian y tu allan i'r ynys.

Dywedodd y Cynghorydd Keith Evans ei fod wedi gwrando ar sylwadau'r Aelodau, ond ei fod yn cefnogi'r cynnig. Dywedodd bod 69 o feysydd parcio ar yr Ynys a bod 27 ohonynt yn feysydd parcio

Talu ac Arddangos a 42 yn feysydd parcio am ddim. Byddai gweithredu'r newid yn cydbwyso'r ffigwr - sef 35 o feysydd parcio talu a 35 o rai lle gellid parcio am ddim. Mae pum maes parcio ym Mhorthaethwy, mae'r cyfan ohonynt yn feysydd talu ac arddangos. Er y cafwyd gwrthwynebiad cychwynnol i'r ffioedd, roedd pobl wedi dod i arfer â'r sefyllfa ac roedd yn ystyried ei fod yn llwyddiant. Byddai parcio am ddim yn annog parcio a theithio gyda dau neu dri o geir wedi'u parcio yn y maes parcio tra bod eu perchenogion yn rhannu cerbyd un ai i fynd i siopa yng Nghaer ac ati neu i fynd i weithio mewn ardal arall. Roedd yn credu bod codi am barcio ceir yn golygu trosiant yn y meysydd parcio sy'n ychwanegu at ganol tref sy'n ferw o brysurdeb. Atgoffodd yr Aelodau o'r gost, sef 50c am yr awr gyntaf, 70c am yr 2il awr. Cymharodd y ffioedd hynny gyda'r ffioedd a godir mewn ardaloedd lleol eraill. Roedd yn credu bod y ffioedd hyn yn isel iawn a bod y swm blynyddol o £100 yn rhesymol. Roedd yn cynnig y dylid cymeradwyo'r penderfyniad.

Roedd y Cynghorydd Hefin Thomas, fel yr Aelod Portffolio, yn credu bod datganiadau camarweiniol wedi'u gwneud yn y cyfarfod. Pwysleisiodd nad oes gan y Swyddog gymhelliant gwleidyddol a'r cwbl y mae'n ceisio'i wneud yw sicrhau cysondeb ledled yr Ynys mewn perthynas â thalu am barcio. Roedd ef a'r Aelod Portffolio Cyllid wedi rhoi awdurdod i'r Swyddogion ymgynghori ar y mater. Gofynnodd beth ddylai'r dewis arall fod a holodd a oedd Aelodau yn credu y dylid gwneud i ffwrdd â thalu am barcio? Mewn perthynas â pharcio am ddim ar y Sul, nododd ei fod wedi trafod hyn gyda'r Swyddog a bod y mater yn cael sylw. Awgrymodd y gallai fod yn beth doeth i sefydlu Grwp Tasg a Gorffen i ystyried yr holl faterion parcio ceir. Dygodd sylw at gymariaethau gydag awdurdodau eraill yn yr ystyr bod Ynys Môn yn codi 70c am yr ail awr tra bod Cyngor Sir Gwynedd yn codi £1.20c.

Atgoffodd yr Aelodau y bydd angen gwneud llawer o benderfyniadau anodd cyn Ebrill 2011 gan gynnwys materion emosiynol fel Cartrefi'r Henoed, Llyfrgelloedd, Canolfannau Hamdden ac ati ac mai dim ond megis dechrau yw hwn. Roedd yn credu mai hwn oedd y penderfyniad cywir ac y dylai Swyddogion fynd allan i ymgynghoriad ar y mater. Cadarnhaodd y Swyddog nad oes Gorchymyn Traffig wedi'i gyhoeddi hyd yma. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn credu mai'r ffordd gywir i ddelio gyda'r mater fyddai ymgynghori'n briodol ymlaen llaw. Cyfeiriodd at Brotocol gan Ian Bottrill a oedd yn dweud y dylid ymgynghori gyda phob Aelod ar faterion pwysig trwy e-bost. Roedd yn credu mai diffyg profiad gwleidyddol oedd y rheswm pam y bu angen y cyfarfod heddiw. Atgoffodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid nad oedd y cyhoedd wedi ymateb yn y Sesiynau Hawl i Holi i'r cwestiwn o sut y byddent yn torri 5% oddi ar y gyllideb. Llongyfarchodd Cemaes, fel y gwnaeth Aelodau eraill, ar y prosiect Busnes Cymunedol sydd mor llwyddiannus. Dywedodd ei fod yn fwy na bodlon trafod y mater parcio gyda Chadeirydd y Cyngor Cymuned (Llanbadrig) ac y byddai'n fodlon hefyd gefnogi sefydlu Grwp Tasg a Gorffen i ystyried yr holl faterion parcio ceir. Cyfeiriodd at y cyhoeddiad a ddisgwylir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fory a allai olygu gorfod gwneud llawer o benderfyniadau anodd.

Wrth gloi'r drafodaeth, darllenodd y Cynghorydd Brian Owen y penderfyniad a wnaed a phwysleisiodd nad oedd cyfeiriad o gwbl at ymgynghori. Dyfynnodd o sylw blaenorol a wnaed a oedd yn dweud y dylai bod gan bob Cynghorydd hawl i bleidleisio ar faterion dadleuol.

Dygodd y Cadeirydd y cyfarfod i ben trwy atgoffa Aelodau nad oedd eilydd i gynnig y Cynghorydd J Penri Williams.

Eiliwyd cynnig y Cynghorydd G O Parry MBE gan y Cynghorydd Eric Roberts y dylai'r mater gael ei gyfeirio i'r Cyngor Sir am sylw am y rhesymau a amlinellwyd yn flaenorol yn y cofnodion.

Eilodd y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes y gwelliant a wnaed gan y Cynghorydd Keith Evans y dylid cymeradwyo'r penderfyniad a wnaed gan yr Aelodau Portffolio.

Cafodd cynnig y Cynghorydd G O Parry ei gario o 7 pleidlais i 2.
Ymataliodd y Cynghorydd Ieuan Williams a J Penri Williams eu pleidlais.

**PENDERFYNODD y Pwyllgor gyfeirio penderfyniad yr Aelod Portffolio i'r cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhelir ar 9 Rhagfyr 2010 am y rhesymau a amlinellir yng nghynnig y Cynghorydd G O Parry MBE sef:-**

- **Mae'r penderfyniad yn tynnu'n groes i egwyddorion y Cyfansoddiad;**
- **Cymesuroldeb - cost darparu'r gwasanaeth o gymharu â'r incwm a fyddai'n cael ei godi;**

- **Ymgynghori annigonol;**
- **Er budd bod yn agored ac yn dryloyw;**
- **Eglurder amcanion a’r canlyniadau a ddymunir.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**